Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 26 MAWRTH 2024***

***CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR, PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

**Gweddarlledu/Cyfarfodydd Hybrid:**
Gellir ffilmio’r cyfarfod hwn i’w ddarlledu’n fyw neu’n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i’r delweddau a’r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib

**Rhan 1**

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 7 - 8)*

4. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/au gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

5. Rhif y cais: P2023/0858 - Crown Wharf, Dociau Port Talbot *(Tudalennau 9 - 96)*
Dymchwel adeileddau presennol ac adeiladu cyfleuster cynhyrchu Tanwydd Hedfanaeth Cynaliadwy (SAF), gan gynnwys cynhyrchu

hydrogen gwyrdd a diesel cynaliadwy, ffagliad amgaeedig ar y tir, tanciau storio, gosod gwaith pibellau a chyfarpar cyfleustodau a phrosesu trydanol, gweinyddiaeth, storfa ac adeiladau labordy, mynediad newydd, maes parcio ac isadeiledd trafnidiaeth gan gynnwys ardal llwytho tryciau a gwaith cysylltiedig, tirlunio caled a meddal, ardaloedd dros dro ar gyfer gosod cyfarpar adeiladu a datblygiad cysylltiedig yn Crown Wharf, Dociau Port Talbot, Port Talbot SA13 1RA

6. Rhif y cais: -2024/0057 - 18 Heol Darwin *(Tudalennau 97 - 104)*
Garej sy'n gysylltiedig â 18 Heol Darwin, Sandfields, Port Talbot SA12 6BS

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

7. Apeliadau y Penderfynwyd Arnynt - 4 Medi 2023 - 18 Mawrth 2024 *(Tudalennau 105 - 114)*

8. Apeliadau a Dderbyniwyd - 4 Medi 2023 to 18 Mawrth 2024 *(Tudalennau 115 - 120)*

9. Penderfyniadau Dirprwyedig - 11 Awst 2023 to 18 Mawrth 2024 *(Tudalennau 121 - 222)*

10. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100BA(6)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

11. Mynediad i gyfarfodydd
Mae hynny'n unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac eithrio'r cyhoedd am yr eitemau canlynol o fusnes a oedd yn ymwneud â datgelu gwybodaeth wedi'i heithrio'n debygol fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf uchod.

**Rhan 2**

12. Llety dros dro - Sefyllfa Rheoleiddio (Yn eithriedig dan Baragraff 16) *(Tudalennau 223 - 230)*

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd J.Jones**

**Is-Gadeirydd:** **Y Cynghorydd T.Bowen**

**Aelodau:** Cynghorydd S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, H.Davies, C.James, C.Jordan, S.Thomas, R.Mizen, P.Rogers a/ac A.R.Aubrey

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd W.F.Griffiths

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.